320

# CREULONDERAU Y TYRCIAID.

## CAN NEWYDD,

Yn rhoddi desgrifiad manwl o'r creulonderau anfad a gyflawnir gan y Tyrciaid yn erbyn trigolion heddychol y Tywysogaethau â pha rai y maent yn bresenol mewn rhyfel.

---

Gwrandewch, y Cymry tirion,
  Rhai mwynion, fawr a mân,
Ar hanes creulonderau
  Na chlyw'd mo'u bath o'r bla'n;
Yn erbyn gwan deyrnasoedd
  Y Twrc i ryfel aeth,
Gan benderfynu llethu
  Eu deiliaid yn fwy caeth.

Mae'r Twrc erioed yn hynod
  Am dymer waedlyd, groes,
Yn erbyn pawb fo'n arddel
  Odidog ffydd y Groes;

Ac yn ein dyddiau ninau,
  Ceir profion tost, heb rith,
Mae'r un yw gwas Mahomet
  Am farbareidd-dra byth.

Ni fyn 'r ellyllon yma,
  'R ol tynu 'r cledd o'r wain,
'N ol deddfau gosodedig
  Ddwyn rhyfel deg yn mlaen;
Nid ar y maes yn unig,
  Yn ngwyneb gelyn blin,
Y saif y Twrc i ymladd
  Fel dyn yn erbyn dyn.

Bulgaria fechan deimlodd
  Arswydlawn ddial drom,
Drwy ruthr y Bashi-Bazouks
  (Dïefliaid gwaedlyd, ffrom),
Ar wartha'r mân bentrefydd,
  Dichellgar fu eu taith,
I losgi, lladd, a llarpio,
  Heb esgus oedd eu gwaith!

I Batak, un o'r trefydd,
  Ryw ddiwrnod fe ddaeth 'rhai'n
Yn sydyn heb ddim rhybudd,
  Fel cwmwl du o frain,
Gan ruthro drwy'r heolydd,
  Er dychryn mawr a braw,
Rhwygasant wragedd beichiog,
  A'r cleddyf yn eu llaw.

X205227839

Lle süa'r fam ei phlentyn
  Anwylaf yn y byd,
Ar ffrwst fe ruthrai'r gelyn
  Fel ellyll at y crŷd,
A chipiai'r baban bychan,
  Er gwaetha ei riant wan,
A chyda'i gleddyf miniog,
  A'i lladdai yn y fan!

Och! olwg felldigedig,
  Uffernol ddiwahan,
Oedd gwel'd yr epil atgas
  Yn treisio'r merched glân!
Ac wedi boddio eu chwantau,
  Neidiasent ar eu traed,
Gan frathu'r merched druain,
  A'i boddi yn eu gwaed.

Ai rhai o'r Tyrciaid creulawn,
  Tan ganu drwy y 'stryd,
Gan gario ar y bidog
  Fabanod tlysa'r byd;
Ac ereill gerfydd hirwallt,
  Lusgasent lawer pen,
Berthynent i fenywod
  Anwylaf îs y nen.

Cadd rhai o'r dynion hefyd
  Wrth goed eu rhwymo'n dŷn,
A'u gadael felly i l'w'gu
  Gan y barbariaid hyn!

A'r adar ysglyfaethus,
  Rhai enbyd, fel mewn gwawd,
Heidiasent yn finteioedd
  I borthi ar eu cnawd.

Yn ebrwydd daeth y milwyr
  Rheolaidd tua 'r lle,
Gan saethu a bidogi
  Drigolion tlawd y dre';
Yr hen a'r ieuangc laddwyd
  Yn nghanol dirfawr swn,
A'r mamau hoff a feiddiwyd,
  A'u plant a rowd i'r cwn!

Mae'r trefydd prydferth hyny
  Yn deilchion mân yn awr,
A channoedd o'r trigolion
  Heb le roi pen i lawr!
Paham, O! Dduw y nefoedd,
  Mae gwaith fel hyn yn bod,
Sef mwrdro 'r rhai diniwed
  Na wnaethant gam erioed.

Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
  Disgyn 'n awr heb oedi,
Dyro 'mwared i'r rhai hyn
  Sy dan eu baich yn gwaeddi;
Na âd i Senedd Prydain
  Eu cefnu îs y nen,
Ond 'u rhwymo i heddychu,
  A'u gilydd mwy. Amen.